Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Practis Deintyddol Rhos

## Dyddiad y gweithgarwch: 27 Ebrill 2021

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mehefin 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80195-467-9

© Hawlfraint y Goron 2021

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Rhos, Wrecsam fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnwys pedwar deintydd, y mae un ohonynt yn brif ddeintydd ac yn rheolwr cofrestredig; un therapydd ac wyth nyrs ddeintyddol. Roedd rheolwr practis yn gweithio yno hefyd a'i rôl oedd cefnogi gweithrediad y practis o ddydd i ddydd.

Triniaeth ddeintyddol y GIG sy'n cael ei darparu gan y practis yn bennaf, ond mae'n darparu triniaethau preifat hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys: triniaethau deintyddiaeth gyffredinol, gwynnu dannedd, corunau, argaenau, mewnosodiadau a dannedd gosod.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd, ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis ar 27 Ebrill 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion a staff. Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg a'r adolygiadau o ddigwyddiadau, a holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod y practis wedi cwblhau asesiad risg amgylcheddol mewn ymateb i COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys camau gweithredu, y gwnaethom gadarnhau eu bod wedi'u cwblhau yn amserol. Cafodd hyn ei gefnogi gan weithdrefn safonol y practis a gafodd ei hysgrifennu yn unol â chanllawiau'r Prif Swyddog Deintyddol (Cymru) Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus am y canllawiau hyn a'r ffordd roeddent yn effeithio ar y practis ac ar ddarparu gofal a thriniaeth.

Gwelsom fod y cleifion wedi cael eu brysbennu dros y ffôn er mwyn asesu a blaenoriaethu eu hanghenion ac i gadarnhau bod modd darparu'r driniaeth yn ddiogel yn ystod y pandemig. Gwnaethom gadarnhau bod proses frysbennu addas ar waith i reoli apwyntiadau brys a bod yno set addas o gwestiynau sgrinio symptomau COVID-19 i ddiogelu'r staff a'r cleifion eraill.

Er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, dywedodd y practis wrthym y caiff cyfarwyddiadau eu hanfon drwy'r e-bost at gleifion yn amlinellu'r newidiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a chaiff y cleifion eu hatgoffa drwy neges destun y diwrnod cyn eu hapwyntiad.

Dywedodd y staff wrthym y gofynnir i'r cleifion wisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, fel masgiau wyneb a bod gel dwylo ar gael wrth fynedfa'r practis. Roedd yno bolisi drws caeedig, a oedd yn golygu y gofynnir i'r cleifion aros cyn mynd i mewn i'r practis. Wrth ddod i mewn, dywedodd y staff wrthym y caiff y cleifion eu sgrinio ar lafar am symptomau COVID-19, cyn cael eu tywys drwy bob rhan o'r practis bob amser. Cadarnhaodd y staff fod y canlyniadau gwirio symptomau'n cael eu cofnodi yn nodiadau pob claf.

Dywedwyd wrthym fod pellter cymdeithasol wedi cael ei roi ar waith ar draws y practis, gyda niferoedd cyfyngedig o bobl yn cael eu gadael i mewn i bob rhan o'r practis. Ychwanegodd y staff fod angen gwisgo masgiau wyneb drwy'r amser ac roedd posteri yn atgoffa'r staff a'r cleifion o hyn yn cael eu harddangos o gwmpas y practis.

Disgrifiodd y practis y trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfarpar brys a meddyginiaethau yn parhau i fod ar gael ac o fewn eu dyddiad. Roedd hyn yn cynnwys cynnal a chofnodi gwiriadau yn wythnosol, gyda'r nod o sicrhau y gall y practis ymateb i argyfyngau meddygol yn effeithiol.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r practis wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r practis yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â chynnal arferion atal a rheoli heintiau da. Cadarnhaodd y staff fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a bod modd cael hyfforddiant priodol a pharhaus.

Gwelsom fod nifer o asesiadau risg ac archwiliadau wedi'u cwblhau mewn ymateb i'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg arferion COVID-19 ac archwiliad rheoli heintiau diweddar gyda chamau gweithredu a oedd wedi'u cwblhau'n amserol.

Gwelsom fod rhestr wirio lanhau ddyddiol ym mhob deintyddfa a gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd. Gwnaethom nodi bod dulliau glanhau mwy trylwyr wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer y deintyddfeydd, a oedd yn cynnwys sicrhau bod deintyddfeydd yn rhydd o lanastr ac yn cael eu paratoi cyn pob apwyntiad.

Disgrifiodd y staff fod camau wedi cael eu cymryd i sicrhau bod yr offer deintyddol yn cael eu sterileiddio cyn iddynt gael eu defnyddio. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio bath uwchsonig a chadarnhaodd y staff fod hwn yn cael ei brofi'n ddyddiol, gan gynnwys profion olion protein ar offer i sicrhau bod y cyfarpar yn parhau'n effeithiol. Gwelsom dystiolaeth hefyd i gadarnhau bod yr awtoclaf[1] hefyd yn cael ei archwilio ar ddechrau a diwedd bob dydd, gyda chylchoedd yn cael eu cofnodi'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi'i rannu'n ddwy ddeintyddfa triniaeth cynhyrchu aerosol (AGP)2 a dwy deintyddfa heb fod yn AGP er mwyn cynnal llif priodol o gleifion ac am resymau rheoli heintiau. Cadarnhaodd y staff fod y ffenestri'n cael eu cadw ar agor ym mhob deintyddfa a bod glanhawyr aer hidlydd HEPA[3] wedi'u ffitio ym mhob un ohonynt. Roedd y practis hefyd wrthi'n cael ei adnewyddu er mwyn gosod deintyddfa newydd, ychwanegol gyda system hidlo aer parhaol.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE. Dywedodd y practis wrthym fod y staff wedi cael profion ffitio naill ai gan y bwrdd iechyd lleol neu gan y profwr ffitio hyfforddedig mewnol. Mae hyn yn sicrhau bod modd i'r staff ddarparu gofal a thriniaethau AGP yn ddiogel. Cadarnhaodd y staff fod digonedd o PPE ar gael.

[1] Darn o gyfarpar meddygol yw'r awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer
[2] Triniaeth feddygol yw triniaeth cynhyrchu aerosol sy'n arwain at gynhyrchu defnynnau yn yr awyr
[3] Caiff hidlydd aer gronynnol hynod effeithlon ei ddefnyddio mewn systemau puro aer

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r practis, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisïau.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd rheolwr y practis yn wybodus ac yn gefnogol o'r ffordd y mae'r tîm cyfan wedi gweithio drwy gydol y pandemig a dangosodd y rheolwr cofrestredig ymwybyddiaeth dda o anghenion y boblogaeth leol.

Dywedodd y practis wrthym eu bod wedi rhannu'n ddau dîm drwy gydol y pandemig. Roedd hyn yn sicrhau bod modd i'r practis barhau i ddarparu gofal a thriniaethau pe bai angen i un tîm hunanynysu. Roedd y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis yn ymwybodol o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, fel achosion o COVID-19 ymhlith staff neu gleifion, i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant a gwnaethom ganfod fod y staff wedi parhau i ymgymryd ag ystod o gyrsiau hyfforddiant DPP perthnasol mewn ymateb i'r pandemig. Dywedwyd wrthym er bod y pandemig wedi effeithio ar y gallu i fynd i hyfforddiant wyneb yn wyneb, roedd y mynediad i DPP ar-lein wedi parhau. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod y practis wedi ailddechrau hyfforddiant wyneb yn wyneb wrth iddo ddod ar gael.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff wedi derbyn eu brechlyn COVID-19, gyda'r nod o'u diogelu yn erbyn effeithiau COVID-19.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cwblhaodd y practis archwiliad cardiau cofnodion cynhwysfawr. Fodd bynnag, nododd canlyniad yr archwiliad sawl maes lle'r oedd modd gwella'r broses o gadw cofnodion. Rhoddodd y practis wybod i ni fod disgwyl i'r archwiliad dilynol gael ei gynnal yn y dyfodol agos er mwyn cynorthwyo'r dysgu ar gyfer y timau deintyddol.

Mae'n ofynnol i'r practis gyflwyno copi o'r archwiliad dilynol i AGIC cyn gynted ag y caiff ei gwblhau, er mwyn i AGIC fod yn sicr bod y dysgu wedi'i gymhwyso yn effeithiol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi’n glir sut yr eir i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr eir i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad:Practis Deintyddol Rhos

Dyddiad y gweithgarwch:27 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'n ofynnol i'r practis gyflwyno copi o'r archwiliad dilynol i AGIC cyn gynted ag y caiff ei gwblhau, er mwyn i AGIC fod yn sicr bod y dysgu wedi'i gymhwyso yn effeithiol. | Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.3<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, Rheoliad 20 | Mae ein practis wrthi'n cynnal archwiliad cardiau cofnodion dilynol i asesu unrhyw ddiffygion. Ar ôl cwblhau hyn, byddwn yn asesu ein canfyddiadau ac yn cymharu'r canlyniad â'n harchwiliad blaenorol i weld pa welliannau sydd wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf.<br>Byddwn yn cynnal sesiwn friffio yng nghyfarfod nesaf y practis er mwyn rhoi gwybod am welliannau, darparu hyfforddiant a gweithdrefnau lle bo angen i wella safonau. | R JOHAL | 22 Gorffennaf 2021 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: R Johal

Dyddiad: 20/05/2021